



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2018,
Y Stiwdio Ddysgu, Tŷ Pawb, Wrecsam

Aelodau Craidd:

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Cynghorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (ar ran Simon Smith)
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Mark Pierce	Heddlu Gogledd Cymru
Sue Price	Coleg Cambria
Judith McGaw	Gwasanaeth Prawf
Teresa Owen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (ar ran Gary Doherty)
Caroline Hughes	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam (ar ran Nina Ruddle)
Amanda Aldridge	Adran Gwaith a Phensiynau (ar ran Lynne Moore)

Cyfranogwyr Cefnogi:

Helen Odunaiya	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru (eitem 6 ar y rhaglen)
Tricia Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 6 ar y rhaglen)
Andrew Harradine	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 7 ar y rhaglen)
Aime Field	Gyrfa Cymru (eitem 9 ar yr agenda)

Ymddiheuriadau:

Andy Jones	Gwasanaeth Prawf
Rus Favager	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Clare Field	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Jason Davenport	CEM Berwyn
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Lynne Moore	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Cam
Gweithredu**

1	Croeso a Chyflwyniadau	
	Croesawodd HJ bawb i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Bwrdd Gwasanaethau	

	Cyhoeddus. Nodwyd fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer yr aelodau hynny o'r bwrdd oedd am siarad yn Gymraeg. Rhoddwyd cyflwyniadau ac ymddiheuriadau.	
2	Pleidleisio dros Gadeirydd ac Is Gadeirydd	
2.1	Derbyniwyd ac eiliwyd enwebiadau am Gadeirydd a chytunwyd yn unfrydol. Bydd Lyndsey Rawlinson yn parhau fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.	LR
2.2	Cadeiriodd LR y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen. Derbyniwyd ac eiliwyd enwebiadau am Is Gadeirydd a chytunwyd yn unfrydol. Bydd y Cynghorydd Hugh Jones yn parhau fel Is Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.	HJ
3	Cytuno ar "Lawlyfr" y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
3.1	Rhannodd aelodau'r Bwrdd eu sylwadau am ddrafft y llawlyfr ynglŷn â: hawliau pleidleisio ac aelodau statudol, y defnydd o'r iaith Gymraeg, ac aelodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Diwygiadau i'w gwneud a'u hail-gylchredeg ar e-bost. Bydd y llawlyfr wedyn yn cael ei gyfieithu a'i roi ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) erbyn canol Gorffennaf.	HO
4	Arwyddo Cynllun Lles BGC Wrecsam yn ffurfiol	
4.1	Cadarnhaodd LR bod pob partner bellach wedi arwyddo Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'i fod wedi ei gyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wefan y BGC. Roedd fersiynau Pwylaidd a Phortiwgeaidd hefyd yn cael eu gorffen.	Pawb
4.2	Gofynnwyd i bartneriaid fynd a chopïau o'r cynllun gyda nhw er mwyn eu rhoi yn y llefydd cyhoeddus perthnasol ar draws y fwrdeistref sirol. Mae copïau ychwanegol ar gael gan HO.	Pawb
4.3	Diolchodd y BGC i'r tîm a fu'n gweithio ar y cynllun lles dros y 12 mis diwethaf.	Pawb
5	Cofnodion Cyfarfod Diwethaf BGC Wrecsam 15.03.18	
5.1	Cymeradwywyd y cofnodion, i gael eu cyhoeddi ar wefan y BGC.	HO
5.2	Bydd pwynt 8.2 ynglŷn â sut caiff ceisiadau i ymuno â'r BGC eu rheoli yn cael ei ychwanegu at Lawlyfr y BGC.	HO
6	Y 1000 diwrnod cyntaf	
6.1	Cyflwynodd AT SA a TJ. Nodwyd bod y ffigyrau diweddaraf yn dangos bod 30% o blant sy'n cychwyn yr ysgol yn Wrecsam dros bwysau neu'n ordew	
6.2	Mae Wrecsam wedi datblygu cyfres o 5 o amcanion er mwyn cefnogi gwaith prosiect Y 1000 diwrnod cyntaf: Cynnydd yn y nifer o ferched sy'n cadw lle ar sesiynau gofal cyn-enedigol erbyn wythnos 10 eu beichiogrwydd; asesiad ACE yn ei le ar gyfer pob asiantaeth (gan gynnwys bydweigiaeth); rhannu gwybodaeth am ddata asesiadau ACE yn well; llwybrau cefnogi eglur yn eu lle ar gyfer merched beichiog a chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer y prosiect hwn ar gyfer staff sydd mewn sefydliadau BGC.	
6.3	Cylchredodd TJ gytundeb partneriaeth i'w drafod.	AT / SA / TJ
6.4	Cytunwyd y dylai'r prosiect hwn fwydo i'r Bwrdd Cychwyn Iach i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd.	AT / SA / TJ
6.5	Gofynnodd y BGC a ellid sicrhau bod y cytundeb partneriaeth yn bwrpasol ar gyfer Wrecsam gan fod peth o'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ac a ellid egluro trefniadau llywodraethu lleol.	
7	Diweddariad ar Strategaeth Tai Lleol Wrecsam	
7.1	Amlinellodd AH y blaenoriaethau ar gyfer drafft strategaeth tai lleol Wrecsam (2018-2023): <ul style="list-style-type: none"> Mwy o Dai, Mwy o Ddewis (bellach wedi ei gytuno fel Mwy o Ddewis o ran Tai) 	

7.2	<ul style="list-style-type: none"> Tai a Chymunedau o Ansawdd Gwell Gwasanaethau Gwell i Wella Bywydau Pobl 	AT AH
7.3	<p>Gofynnodd AT i gael rhoi adborth o lefel poblogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a gofynnodd HJ i AH am gysylltiad â Strategaeth Chwarae Bwrdd Gweithredol CBSW a gymeradwywyd yn ddiweddar.</p> <p>Codwyd materion i'w hystyried sef: y strategaeth i ystyried diogelwch tân e.e. adeiladu cartrefi i fod yn fwy diogel o ran tân fel mae pobl yn heneiddio ac mae eu hanghenion yn newid; sut mae'r strategaeth hon yn dylanwadu ar incwm y cartref (ac yn cysylltu â'r strategaeth gwrthdodi); ac adeiladu a chynllunio cartrefi y gellir eu haddasu ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio - ar hyn o bryd mae nifer o bobl am symud i gartrefi llai ond yn methu gwneud hynny.</p> <p>Nodwyd hefyd y gallai'r strategaeth hon gefnogi ein cynllun BGC e.e. datblygwyr sy'n cynnig prentisiaethau.</p> <p>Nodwyd bod y BGC yn cymeradwyo'r 3 blaenoriaeth a awgrymir yn y strategaeth tai lleol drafft.</p>	AH
7.4		Pawb
7.5		Pawb
8	Diweddariad gan y Bwrdd Cychwyn Iach	
8.1	Diweddarodd AT y BGC bod y grŵp bellach wedi cwrdd ddwywaith ac yn cytuno ar gynllun cyflenwi.	AT
8.2	Mae trafodaethau hefyd gyda Senedd i'r Ifanc Wrecsam ar gyd-weithio peth ar draws y 2 fwrdd.	AT / SP
9	Diweddariad gan y Bwrdd Dysgu Gydol Oes	
9.1	Nododd SP bod y bwrdd hwn wedi cwrdd unwaith a bod cynrychiolwyr o sefydliadau partner yn cael eu clustnodi gan gynnwys cynrychiolydd iaith Gymraeg. Yn y man cyntaf mae'r grŵp am weithredu ar draws sefydliadau aelodau'r bwrdd ac yna agor hyn allan ar draws Wrecsam.	SP
9.2	<p>Cyflwynodd SP Aime Field o Gyfnewidfa Busnes Addysg Gyrfa Cymru. Mae hwn yn brosiect newydd sydd yn dal i gael ei ddatblygu ac mae Wrecsam ar fin cael ei gyflwyno fel rhan o'r prosiect pilot.</p> <p>https://www.careerswales.com/en/employers/working-with-schools-and-colleges/education-business-exchange/</p> <p>Ar hyn o bryd mae 13,000 o gyflogwyr ar y gyfnewidfa ac maent yn helpu i ddod â'r cwricwlwm ysgol / coleg i fywyd e.e. gweminar ar weithio mewn cyfrifyddiaeth er mwyn helpu i ddefnyddio sgiliau mathemateg mewn bywyd.</p>	
9.3	Cytunodd y GCS i fwrw ymlaen â'r fenter hon. HO i rannu manylion cyswllt aelodau'r GCS gydag Aime Field a fydd yn cysylltu â nhw i benderfynu'r ffordd orau i'w symud ymlaen ar ran ei sefydliadau.	Pawb
10	Diweddariad gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd Da	
10.1	Dywedodd RS bod cyfarfod ar y cyd wedi ei gynnal rhwng "Byrddau Byw'n Iach ac Annibynnol" Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg y maent yn eu harchwilio yn ymwneud â: Gadael yr ysbyty i fynd adref, model rhagnodi cymdeithasol a SPOA.	RS
10.2	Mynegodd y BGC bryder nad oedd gan y bwrdd hwn o bosib y mesurau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer BGC Wrecsam ac mae'n bosib nad yw'n bodloni anghenion ein cynllun llesiant sef edrych ar: iechyd meddwl cadarnhaol; byw'n iach, yn hapus ac yn annibynnol mewn oed; a phobl yn gwneud dewisiadau iach.	RS
10.3	Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y BGC ym mis Medi yn dod ag adroddiad / cyflwyniad mwy manwl ar sut bydd y gwaith hwn yn cael ei symud yn ei flaen.	RS
11	Rôl y BGC wrth symud ymlaen	

11.1	Cyflwynodd HO adroddiad i'r BGC yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y BGC nawr bod y cynllun lles wedi ei gytuno.	
11.2	Gwirfoddolwyr ar gyfer y rhestr o dasgau angenrheidiol i gefnogi'r BGC i gysylltu â HO.	Pawb
11.3		Pawb
11.4	Gwersi a ddysgir gan y BGC i'w hystyried yng nghyfarfod mis Medi. MAT i ystyried yr argymhellion o fewn yr adroddiad hwn ar gyfer y BGC gan gynnwys y rhai gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Grŵp MAT
11.5	HO i gwrdd â chynghorau cymuned lleol sy'n destun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu gwaith ar y cyd. (Y Cynghorau Cymuned yw Caia a Rhos)	HO
12	Grant Rhanbarthol BGC	
12.1	Amlinellodd HO delerau ac amodau'r grant rhanbarthol sydd wedi ei ddyfarnu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Unrhyw feysydd o wariant i'w ystyried gan grŵp Swyddogion BGC Gogledd Cymru i'w hanfon ymlaen at HO.	Pawb
13	Unrhyw Fater Arall	
13.1	Dywedodd LR ei bod yn mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel Cadeirydd BGC Wrecsam a chylchredodd y cais a dderbyniodd. Roedd gwahaniaeth barn ac awgrymwyd y byddai gweithdy ehangach yn syniad da o bosib er mwyn trafod hyn mewn mwy o fanylder gyda chynulleidfa ehangach. Nodwyd bod lles, o safbwynt BGC, yn ehangach nag iechyd a gofal cymdeithasol wrth gwrs.	LR

Nodwch ddyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2018:

2018

13.09.18	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam
13.12.18	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam

2019

14.03.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam
13.06.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam
12.09.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam
12.12.19	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam